# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 26.03.15

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr, Stephen Churchman, Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Siân Gwenllïan, Jason Humphreys, Eric M. Jones, Angela Russell, Dyfrig Siencyn a R.H. Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Dilwyn O Williams (Prif Weithredwr), Sian Bebb (Ymgynghorydd Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, Brian Jones a Liz Saville-Roberts

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

## 5. CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER PENODI PENNAETH CEFNOGAETH CORFFORAETHOL A DATBLYGU'R SEFYDLIAD.

Penderfyniad y Pwyllgor yn eu cyfarfod ar ddechrau'r mis oedd rhoi tri ymgeisydd ymlaen ar gyfer y ganolfan asesu. Cyhoeddodd y Prif Weithredwr bod un ymgeisydd wedi tynnu ei chais yn ôl ac mai dau ymgeisydd fydd bellach yn cael eu cyfweld ar gyfer y swydd.

Dymuniad yr Aelodau oedd i'r ymgeisydd, oedd wedi tynnu ei chais yn ôl, dderbyn yr adborth a gafwyd o'r ganolfan asesu; eu bod yn parchu ei phenderfyniad ac yn gefnogol i gais ganddi yn y dyfodol.

Cyfwelwyd dau ymgeisydd ar gyfer y swydd.

Gwahoddwyd Mr Arwyn Reynolds, Ymgynghorydd annibynnol o gwmni PCS Associates i gyflwyno sylwadau o'r Ganolfan Asesu a gynhaliwyd 09.03.15. Derbyniwyd crynodeb manwl o berfformiadau'r ddau ymgeisydd.

Diolchwyd i Mr Reynolds am ei sylwadau.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y swydd yn cael ei chynnig i Mr Geraint Owen

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL I BENODI MR GERAINT OWEN I'R SWYDD PENNAETH CEFNOGAETH CORFFORAETHOL A DATBLYGU'R SEFYDLIAD**

**********

Dymunwyd pob lwc i Sian Bebb (Ymgynghorydd Adnoddau Dynol) yn ei swydd newydd. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad a'i gwasanaeth i'r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 4:40pm